# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Medi 2019

Amser: 13.10 - 16.07

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5607

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Dai Lloyd AC |
| Tystion: | Jeremy Miles AC, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit<br>Simon Brindle, Llywodraeth Cymru<br>Diane Dunning, Llywodraeth Cymru<br>Dr Hugh Rawlings CB, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru<br>Angharad Thomas-Richards, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Rachael Davies (Dirprwy Glerc)<br>Sara Moran (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Carwyn Jones AC.

## 2 Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor arfaethedig - Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019: Sesiwn dystiolaeth

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol; Dr Hugh Rawlings, Cyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru; Diane Dunning, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru, ac Angharad C Thomas-Richards, Ymgynghorydd y Rhaglen Diwygio Etholiadol, Llywodraeth Cymru.

## 3 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru: Sesiwn dystiolaeth 1

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol; Dr Hugh Rawlings, Cyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru; Diane Dunning, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru, a Simon Brindle, Cyfarwyddwr Strategaeth Brexit, Llywodraeth Cymru.

## 4 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

### 4.1 pNeg(5)31 - Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso.

## 5 Offerynnau negyddol arfaethedig sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

### 5.1 pNeg(5)30 - Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r argymhelliad bod Llywodraeth Cymru yn dyrchafu'r Rheoliadau i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## 6 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 6.1 SL(5)432 - Cod Ymarfer er Lles Cathod

### 6.2 SL(5)436 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (Darpariaeth Drosiannol ar gyfer Tenantiaethau Byrddaliadol Sicr) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 7 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 7.1 SL(5)434 - Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 7.2 SL(5)435 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i aros am ymateb y Llywodraeth cyn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

### 7.3 SL(5)437 - Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) (Diwygio) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt rhinweddau a nodwyd, ac i dynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

### 7.4 SL(5)438 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt rhinweddau a nodwyd.

### 7.5 SL(5)439 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau i Gymhwystra Myfyrwyr) (Cymru) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau rhinweddau a nodwyd.

## 8 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

### 8.1 SL(5)433 - Gorchymyn Rheilffyrdd Caerdydd a’r Cymoedd (Trosglwyddo) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i’r Cynulliad yn unol â'r pwynt rhinweddau a nodwyd.

Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i godi mater hygyrchedd y gyfraith.

## 9 Offerynnau statudol y mae angen i’r Cynulliad gydsynio â nhw: Brexit

### 9.1 SICM(5)25 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio ac ati) (Ymadael â’r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

## 10 Adroddiad Rheol Sefydlog 30B: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r adroddiad.

## 11 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 11.1 WS-30C(5)140 - Rheoliadau Rhyddid i Ymsefydlu a Symud Gwasanaethau yn Rhydd (Ymadael â’r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 11.2 WS-30C(5)142 - Rheoliadau Amaethyddiaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad, yn unol â'r sylwebaeth a ddarparwyd gan gyfreithwyr y Cynulliad.

### 11.3 WS-30C(5)143 - Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad, yn unol â'r sylwebaeth a ddarparwyd gan gyfreithwyr y Cynulliad.

**11.4 WS-30C(5)144 – Rheoliadau Storio Carbon Deuocsid (Diwygio a Phŵer i Addasu) (Ymadael â'r UE) 2018**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

**11.5 WS-30C(5)145 – Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

**11.6 WS-30C(5)146– Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

**11.7 WS-30C(5)147 – Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

**11.8 WS-30C(5)148 – Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Trefniadau Trosiannol etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ac eglurhad pellach, yn unol â'r sylwebaeth a ddarparwyd gan gyfreithwyr y Cynulliad.

**11.9 WS-30C(5)150 – Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019**

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad, yn unol â'r sylwebaeth a ddarparwyd gan gyfreithwyr y Cynulliad.

### 11.10 WS-30C(5)149 - Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad, yn unol â'r sylwebaeth a ddarparwyd gan gyfreithwyr y Cynulliad.

## 12 Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit: Y wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Pwyllgor y datganiad i'r wasg a'r llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor y byddai cyfarfod nesaf y Fforwm Rhyngseneddol yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd.

## 13 Papur(au) i'w nodi

### 13.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: WS-30C(5)134 - Rheoliadau Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

### 13.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Llywydd a'r Cwnsler Cyffredinol: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Llywydd a'r Cwnsler Cyffredinol.

### 13.3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: WS-30C(5)133 - Rheoliadau'r Amgylchedd (Swyddogaethau Deddfwriaethol o Gyfarwyddebau) (Ymadael Â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

### 13.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Hawliau pleidleisio i garcharorion

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

**13.5 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Amaethyddiaeth**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

**13.6 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Is-ddeddfwriaeth sydd i ddod**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd.

**13.7 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at y Llywydd: Hawliau pleidleisio i garcharorion**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at y Llywydd.

**13.8 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Hawliau pleidleisio i garcharorion**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

**13.9 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Offerynnau Statudol yn ymwneud ag Ymadael â’r UE**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

**13.10 Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol.

**13.11 Llythyr gan y Llywydd: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd.

### 13.12 Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

### 13.13 Llythyr gan y Prif Weinidog: Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

### 13.14 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Cyfarfod Pedrochrog y Gweinidogion Cyllid

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

### 13.15 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

### 13.16 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

## 14 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 15 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Gemau'r Gymanwlad Birmingham: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Gemau'r Gymanwlad Birmingham, a chytunodd arno.

## 16 Gwybodaeth friffio ar weithdrefn ar gyfer craffu ar filiau cydgrynhoi

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth friffio ar weithdrefn arfaethedig ar gyfer craffu ar filiau cydgrynhoi yn y dyfodol.